Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr/2025/25: Atodiad D

# Atodiad D – Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cod Ymgysylltu â Dysgwyr


Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 2
Cyflwyniad ..... 3
Cwmpas ymgysylltu â dysgwyr ..... 3
Manteision ymgysylltu â dysgwyr ..... 3
Gweledigaeth ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr ..... 4
Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 5
Sail gyfreithiol ..... 5
Fframwaith Rheoleiddio ..... 6
Fframwaith Ansawdd ..... 6
Gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 7
Ystyriaethau ar gyfer arfer ..... 8
Egwyddor 1: Wedi'i Wreiddio ..... 8
Egwyddor 2: Yn Cael Ei Werthfawrogi ..... 10
Egwyddor 3: Yn Cael Ei Ddeall ..... 12
Egwyddor 4: Yn Gynhwysol ..... 14
Egwyddor 5: Yn Ddwyieithog ..... 16
Egwyddor 6: Yn Unigol a Chyfunol ..... 17
Egwyddor 7: Yn Cael Effaith Fawr ..... 19
Egwyddor 8: Yn Cael Adnoddau ..... 20
Egwyddor 9: Yn Cael Ei Werthuso ..... 21
Dull o Fonitro ..... 23
Gofynion Tystiolaeth ..... 23
Casglu tystiolaeth yn barhaus: ..... 24
Ymyrraeth Reoleiddiol ..... 25
Atodiad A Cod Ymgysylltu â Dysgwyr: arweiniad a gwybodaeth ..... 26


DRAFT

## Cyflwyniad

### Cwmpas ymgysylltu â dysgwyr

1. At ddibenion cylch gwaith Medr a chwmpas ei weithgareddau, yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, diffinnir 'ymgysylltu â dysgwyr' fel gweithgarwch sy'n cwmpasu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau perthnasol gan eu darparwr, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol ym mhrosesau penderfynu darparwyr a sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i roi eu barn i'w darparwr ynglŷn â'r addysg y maent yn ei chael a materion sy'n peri pryder neu sydd o ddiddordeb iddynt. Nid yw'r diffiniad o ymgysylltu â dysgwyr, at ddibenion y Cod, yn cyfeirio at ymwneud unigolyn â'i ddysgu ei hun na'i ymrwymiad iddo.

2. Dysgwr yw'r term cyfunol a ddefnyddir ar gyfer unigolion sy'n dysgu yn y sector addysg drydyddol mewn ystod eang o leoliadau gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, gweithleoedd a chymunedau. O fewn gwahanol rannau o'r sector addysg drydyddol defnyddir termau mwy penodol yn aml, megis 'myfyriwr', 'disgybl', 'ymchwilydd doethurol' neu 'brentis.' Lle y bo'n briodol (er enghraifft, mewn astudiaethau achos neu adnoddau sy'n ymwneud ag un rhan o'r sector) defnyddiwyd y term sy'n gyffredin i ran benodol o'r sector o fewn y Cod.

3. Darparwr yw'r term a ddefnyddiwn i gwmpasu'r ystod o sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu addysg drydyddol ac ymchwil, sef; prifysgolion, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddysgu oedolion yn y gymuned a chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir.

4. Mae prosesau penderfynu darparwyr yn derm eang sy'n cwmpasu pob penderfyniad a wneir gan ddarparwr sy'n peri pryder neu sydd o ddiddordeb i ddysgwyr. Dylai hyn gynnwys y penderfyniadau hynny sy'n ymwneud ag ansawdd addysg drydyddol, profiadau dysgu ac addysgu dysgwyr, penderfyniadau strategol a wneir gan y darparwr ac unrhyw benderfyniadau ynglŷn â phrofiad ehangach dysgwyr.

### Manteision ymgysylltu â dysgwyr

5. Mae ymgysylltu'n effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau'n dwyn manteision i ddysgwyr presennol a dysgwyr yn y dyfodol, i ddarparwyr ac i'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

6. Yn unigol, mae'r dysgwyr hynny sy'n ymgysylltu â phrosesau penderfynu ac sy'n cyflawni rolau fel cynrychiolwyr, llywodraethwyr neu arweinwyr yn cael cyfleoedd i:
   - ddatblygu sgiliau a chymwyseddau ychwanegol
   - gwella eu profiad dysgu eu hunain
   - creu cysylltiadau cymdeithasol
   - dyfnhau eu hymdeimlad o berthyn o fewn eu darparwr

7. Gyda'i gilydd, mae dysgwyr yn cael budd o:
   - brofiad dysgu sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion ac sy'n ymateb iddynt
   - cyfleoedd cydgysylltiedig i helaethu eu lleisiau gyda llai o faich unigol
   - gwelliannau sydd o fudd i garfannau o ddysgwyr yn y dyfodol

8. Mae gan ddarparwyr a'r sector addysg drydyddol yn ei gyfanrwydd gyfleoedd i gael budd trwy:

DRAFT

- well dealltwriaeth am anghenion dysgwyr i lywio gwelliant parhaus mewn ansawdd ac ym mhrofiad dysgwyr
- effeithiau cadarnhaol ar foddhad, cyfraddau cadw a llwyddiant dysgwyr
- bod dysgwyr yn adnabod rhwystrau a heriau i ategu penderfyniadau strategol a chamau gweithredol darparwyr
- adborth dysgwyr fel tystiolaeth werthfawr i oleuo prosesau hunanwerthuso ac ansawdd

9. Mae ymgysylltu â dysgwyr yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei arwain gan anghenion dysgwyr; felly nid oes un dull "cywir" o ymgysylltu â dysgwyr, yn enwedig yn y sector addysg drydyddol sy'n cwmpasu ystod amrywiol o ddysgwyr a lleoliadau. Mae Medr yn hybu arloesi ym maes ymgysylltu â dysgwyr i ddiwallu anghenion dysgwyr ac i ysgogi gwelliant parhaus. Er mwyn galluogi hyn, mae'r Cod yn fwriadol yn peidio â rhagnodi pa fath o arferion ddylid eu defnyddio wrth ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phroses benderfynu eu darparwr, na'r mecanweithiau penodol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu defnyddio. Yn hytrach, rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar **effaith** ymgysylltu â dysgwyr. Bydd effaith yn cael ei harchwilio trwy lais y dysgwr, enghreifftiau o arfer a'r effaith y maent yn ei chael ar ddysgwyr a phrofiad dysgwyr.

10. Bydd dulliau ymgysylltu â dysgwyr yn cael eu siapio gan faint pob darparwr, eu cenhadaeth, demograffeg eu dysgwyr a'r mathau o ddarpariaeth sydd ganddynt, yn ogystal â'u hanes a phrofiad unigryw o ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau penderfynu – hynny oll tra bo darparwyr yn cael eu tywys gan anghenion dysgwyr. Rydym yn deall y bydd natur ymgysylltu'n cael ei siapio gan y cyd-destun y mae dysgu'n digwydd ynddo; er enghraifft, mae profiadau prentisiaid yn cael eu pennu'n bennaf gan ddisgwyliadau eu cyflogwr a'u cyfrifoldebau yn y gweithle, a gall y strwythurau y maent yn gallu cael mynediad atynt ar gyfer cynrychiolaeth ac adborth edrych yn wahanol iawn i'r rhai mewn darparwyr addysg eraill.

11. Mae Medr yn cydnabod y bydd darparwyr yn dechrau o wahanol fannau ar eu taith tuag at ennyn ymgysylltiad dysgwyr â'u prosesau penderfynu mewn modd effeithiol a byddwn yn rheoleiddio'n gymesur yn y cyd-destun hwnnw. Bydd disgwyl i bob darparwr werthuso eu hymgysylltiad â dysgwyr i roi cymorth iddynt wella'n barhaus. Nod Medr yw cefnogi hyn ar lefel darparwyr ac ar draws y sector, trwy'r Cod, trwy gyhoeddi enghreifftiau o arfer effeithiol ac arweiniad, a thrwy gyllido prosiectau a arweinir gan sefydliadau sydd â phrofiad ac arbenigedd perthnasol. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynorthwyo Medr a'r sector i wireddu'r weledigaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, a ddatblygwyd gyda dysgwyr ac a ysgrifennwyd o'u safbwynt hwy, gan adlewyrchu nod strategol Medr i sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.

### Gweledigaeth ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr

12. Fel dysgwyr rydym yn ganolog i addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae gennym gyfleoedd, fel unigolion a chyda'n cymheiriaid, i ymgysylltu â phrosesau penderfynu sy'n effeithio ar ein profiadau dysgu ni a phrofiadau dysgu dysgwyr yn y dyfodol ac yn gwella'r profiadau hynny. Mae ein lleisiau'n bwysig trwy gydol ein teithiau dysgu, pa un a ydym yn dechrau cwrs, yn pontio i gyfleoedd newydd ynteu'n symud ymlaen yn ein gyrfaoedd.

DRAFT

## Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

13. Datblygwyd y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr i gynorthwyo dysgwyr addysg drydyddol yng Nghymru i ymgysylltu mewn modd ystyrlon â phrosesau penderfynu eu darparwyr, gan siapio profiad dysgwyr a'r amgylchedd dysgu a'u gwella'n barhaus. Mae'r Cod yn eistedd o fewn fframweithiau rheoleiddio ac ansawdd Medr gyda gofynion rheoleiddiol ar gyfer pob darparwr addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Bwriedir iddo fod yn adnodd a ddefnyddir gan ddarparwyr, gyda'u dysgwyr a'r cyrff sy'n cynrychioli eu dysgwyr (lle maent yn bodoli), i ddatblygu, gwerthuso a gwella ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau penderfynu eu darparwr. Mae'r Cod yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr ar ffurf egwyddorion. Mynegir yr egwyddorion o safbwynt y dysgwr, gan ganolbwyntio ymgysylltiad dysgwyr ar eu hanghenion. Dylai'r egwyddorion gael eu rhannu a'u deall gan ddysgwyr a thrwyddi draw mewn darparwr, cyfrifoldeb cyrff llywodraethu (neu gyrff cyfwerth) darparwyr yw sicrhau y cydymffurfir â'r Cod.

14. Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn eistedd o fewn y fframwaith rheoleiddio trwy Amod Cofrestru ac Amod Cyllid; mae dyletswydd statudol ar chweched dosbarth ysgol a gynhelir i gydymffurfio â gofynion y Cod. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darpariaeth gan ddarparwyr addysg drydyddol cofrestredig a/neu a gyllidir, gan gynnwys yr hyn a ddarperir ar eu rhan, er enghraifft trwy drefniadau is-gontractio neu freiniol. Lle y bo trefniadau dilysu yn eu lle, rhaid i ddarparwr cofrestredig (yn unol â'r Amod: Trefniadau Dilysu) sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr lle bynnag y bo modd. Rhaid i bob darparwr addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru sicrhau bod ei ymgysylltiad â dysgwyr yn cyd-fynd ag egwyddorion y Cod. Er rhwyddineb, amlygir y gofynion hyn mewn porffor drwy'r Cod i gyd. Mae gan bob egwyddor destun sy'n cyd-fynd â hi i helpu darparwyr i ystyried yr elfennau allweddol y mae eu hangen i sicrhau bod eu harfer yn cyd-fynd â gofynion y Cod. Darperir yr wybodaeth hon fel arweiniad a dylai pob darparwr ei hystyried – er rhwyddineb, amlygir arweiniad mewn melyn drwy'r Cod i gyd.

15. Mae'r enghreifftiau a'r cwestiynau myfyriol yn rhoi cymorth pellach i ddarparwyr a dysgwyr i gyd-fynd â'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr ac i werthuso a gwella arferion cyfredol. Nid yw'r wybodaeth hon yn rhagnodol ac nid yw'n rhan o ofynion nac arweiniad y Cod. Mae cwestiynau myfyriol yn helpu dysgwyr, cyrff sy'n cynrychioli dysgwyr (lle maent yn bodoli) a darparwyr i fynd ati ar y cyd i werthuso i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'r egwyddorion. Mae enghreifftiau o arfer yn helpu i fynegi'r egwyddorion sydd ar waith; mae'n ddefnyddiol ystyried y rhain yng nghyd-destun penodol y darparwr, gall peth arfer fod yn benodol i wahanol rannau o'r sector a gall fod arweiniad a disgwyliadau ychwanegol i gyd-fynd ag ef y tu hwnt i'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad A). Bydd y cymorth a'r canllawiau'n cynyddu dros amser, gan ehangu ar enghreifftiau o arfer i gynnwys astudiaethau achos o'r sector, gan adeiladu ar adnoddau mewn ymateb i anghenion y sector a thrwy brosiectau a gyllidir gan Medr sy'n hwyluso cymorth a chydweithio ym maes ymgysylltu â dysgwyr.

## Sail gyfreithiol

16. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Medr baratoi a chyhoeddi'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (y Cod) ynglŷn â chynnwys dysgwyr yn y broses benderfynu gyda'u darparwyr.

17. Mae ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau'n cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr:

DRAFT

- gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau perthnasol gan eu darparwr
- sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu cynrychioli'n effeithiol ym mhrosesau penderfynu darparwyr
- rhoi eu barn ynglŷn â’r addysg y maent yn ei chael a materion sy’n peri pryder neu sydd o ddiddordeb iddynt

18. Rhaid i ddysgwyr gael y cyfleoedd hyn i fod yn rhan o benderfyniadau eu darparwr sy’n peri pryder neu sydd o ddiddordeb iddynt.

19. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Cod yn barhaus ar gyfer pob darparwr cofrestredig, fel a nodir yn yr Amod Cofrestru cysylltiedig. Caiff y gofyniad hwn i gydymffurfio ei adleisio yn yr Amod Cyllido cysylltiedig ar gyfer darparwyr a gyllidir gan Medr. Mae Adran 101 y Ddeddf yn ei gwneud hi’n ofynnol cydymffurfio â'r Cod ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir.

20. Felly, mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru:
    - addysg bellach
    - addysg uwch
    - prentisiaethau
    - dysgu oedolion yn y gymuned
    - chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol

### Fframwaith Rheoleiddio

21. Mae'r Cod yn rhan o fframwaith rheoleiddio Medr, a danategir gan ein Dull Rheoleiddio. Fel rheoleiddiwr, rydym yn anelu at ddefnyddio dull cytbwys sy'n gymesur ac yn seiliedig ar risg ond sydd hefyd yn disgwyl safonau uchel ar draws addysg drydyddol yng Nghymru.

22. Mae'r Cod yn ei gwneud hi’n ofynnol i ddysgwyr gael cyfleoedd i ymgysylltu ar draws y broses benderfynu ym mhob darparwr yn y sector trydyddol ac felly mae'n rhychwantu'r fframwaith rheoleiddio gyda disgwyliadau ar draws amodau rheoleiddiol. Ni fydd Medr yn monitro unrhyw un amod ar wahân ac felly bydd yn bwrw golwg gyfannol ar ymgysylltu â dysgwyr, gan dynnu ar dystiolaeth ar draws y fframwaith.

### Fframwaith Ansawdd

23. Mae Fframwaith Ansawdd Medr yn nodi polisi ac arfer mewn perthynas ag ansawdd addysg drydyddol. Mae'n elfen allweddol i helpu Medr i gyrraedd ei nod strategol i sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn sector addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus. Fel y Cod, mae'r Fframwaith Ansawdd yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

24. Mae gan y Fframwaith Ansawdd set o gonglfeini, sef y meini prawf a nodir gan Medr ar gyfer asesu ansawdd addysg drydyddol, ac yr ydym yn disgwyl iddynt ysgogi deilliannau da ar gyfer dysgwyr. Mae conglfaen ymgysylltu â dysgwyr y Fframwaith Ansawdd yn canolbwyntio ar ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau a chamau gweithredu eu darparwyr i sicrhau a gwella ansawdd eu profiad dysgu. Disgwylir i ddarparwyr weithredu'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr fel rhan o hyn. Fel rhan o'r conglfaen hwn, mae Medr hefyd yn ymrwymo i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu â

DRAFT

dysgwyr yn y sector trwy fuddsoddi mewn adnoddau, cymorth a hyfforddiant ac i rannu arfer da. Disgwylir i sefydliadau sy'n gyfrifol am arolygu ac adolygu ymgysylltu â dysgwyr ac ystyried eu barn.

## Gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

25. Mae'r Cod yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr ar ffurf egwyddorion a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid yn y sector. Rhaid i bob darparwr addysg drydyddol gydymffurfio â'r Cod trwy sicrhau bod eu harferion ymgysylltu â dysgwyr yn cyd-fynd â'r egwyddorion.

26. Fe ysgrifennwyd y weledigaeth a'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr o safbwynt dysgwyr, gan adlewyrchu nod strategol Medr i sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.

### Egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr[1]

**Mae ymgysylltu â dysgwyr:**

1. **Wedi'i Wreiddio:** Mae cyfleoedd i mi ymgysylltu â phrosesau penderfynu gyda'm darparwr wedi'u gwau trwy bob agwedd ar fy nhaith addysgol a thrwy'r holl benderfyniadau sy'n effeithio arnaf, fy nghymheiriaid a dysgwyr yn y dyfodol.
2. **Yn Cael Ei Werthfawrogi:** Gwrandewir arnaf ac rwy’n cael fy ngrymuso i siapio fy mhrofiad dysgu cyfan trwy ymgysylltu â phrosesau penderfynu fy narparwr.
3. **Yn Cael Ei Ddeall:** Rwy'n gwybod ble a sut i godi syniadau a rhannu meddyliau ar bynciau sy'n bwysig i mi a phynciau a godir gan fy narparwr addysg.
4. **Yn Gynhwysol:** Mae'r cyfleoedd i mi a dysgwyr eraill ymgysylltu â phrosesau penderfynu’n adlewyrchu ein hanghenion, diddordebau a galluoedd amrywiol i ymgysylltu.
5. **Yn Ddwyieithog:** Gallaf ymgysylltu â phrosesau penderfynu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gennyf gyfleoedd i gael fy nghynnwys yn null fy darparwr addysg lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cwestiwn ac o ran sut y mae'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
6. **Yn Unigol a Chyfunol:** Yn ogystal â'r cyfleoedd i mi ymgysylltu â phrosesau penderfynu fy narparwr, fel dysgwyr rydym yn cael ein cynorthwyo i rannu ein lleisiau gyda'n gilydd i ymgysylltu ar y cyd â phrosesau penderfynu i siapio’r profiad dysgu.
7. **Yn Cael Effaith Fawr:** Mae fy ymgysylltiad yn rhan o ddeialog barhaus lle mae deilliannau a newidiadau’n cael eu trafod a'u hadolygu, lle’r ydym ni i gyd yn gallu gweld effaith hyn ar y profiad dysgu yn awr ac ar gyfer dysgwyr yn y dyfodol.
8. **Yn Cael Adnoddau:** Mae adnoddau’n cael eu dyrannu gan fy narparwr addysg i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â phrosesau penderfynu.
9. **Yn Cael Ei Werthuso:** Mae fy narparwr addysg yn gwerthuso'n rheolaidd sut y mae’n ymgysylltu â ni fel dysgwyr a pha un a yw hyn yn cwrdd â’n disgwyliadau. Maen nhw'n gweithio gyda ni i adnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y gellid ei wneud yn well ac i ddatblygu newidiadau ar gyfer gwella.

[1] Mae adrannau a amlygwyd mewn porffor yn nodi gofynion y Cod, y mae'n rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â hwy.

### Ystyriaethau ar gyfer arfer

27. Mae'r adran ganlynol o'r Cod yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo darparwyr i sicrhau bod eu harfer ymgysylltu â dysgwyr yn cyd-fynd â gofynion y Cod. Mae'r adran hon wedi'i bwriadu i ddarparu eglurder pellach ynghylch yr egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, dod â'r egwyddorion yn fyw trwy enghreifftiau o arfer a bod o gymorth i werthuso trwy gwestiynau adfyfyriol.

28. Gall yr adran hon gael ei defnyddio gan ddarparwyr, dysgwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle maent yn bodoli) i ddatblygu, gwerthuso a mynd ati'n barhaus i wella ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau penderfynu eu darparwr. Bydd yr adran hon yn cael ei chynyddu dros amser gan ymateb i anghenion ac arfer esblygol y sector, a bydd hyn yn cynnwys ychwanegu enghreifftiau ac astudiaethau achos pellach a chyfeirio at arweiniad ac adnoddau a gyllidir gan Medr ac sydd ar gael i'r sector. Er mwyn ysgogi gwelliant parhaus ym maes ymgysylltu â dysgwyr, bydd gofynion y Cod yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd yn seiliedig ar ganfyddiadau gweithgarwch monitro ac mewn cydweithrediad â dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid.

29. Mae adrannau a amlygwyd mewn porffor yn nodi gofynion y Cod, ac mae adrannau a amlygwyd mewn melyn yn nodi arweiniad y mae'n rhaid i bob darparwr ei ystyried.

#### Egwyddor 1: Wedi'i Wreiddio

**Mae cyfleoedd i mi ymgysylltu â phrosesau penderfynu gyda'm darparwr wedi'u gwau trwy bob agwedd ar fy nhaith addysgol a thrwy'r holl benderfyniadau sy'n effeithio arnaf, fy nghymheiriaid a dysgwyr yn y dyfodol.**

Mae gan ddysgwyr gyfleoedd i ymgysylltu â holl brosesau penderfynu eu darparwyr sy'n effeithio ar eu profiad dysgu a phrofiad dysgu dysgwyr yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn â dysgu, addysgu ac ansawdd eu cwrs, yr amgylchedd y maent yn dysgu ynddo, a phenderfyniadau strategol a wneir gan eu darparwr. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymgysylltu â phrosesau penderfynu eu darparwr ar bob lefel, gan gynnwys y penderfyniadau hynny sy'n ymwneud â'u cwrs, â maes pwnc neu grŵp o gyrsiau, â'r amgylchedd, â chyfleusterau a chymorth y gallant gael mynediad atynt, ac â phenderfyniadau strategol sy'n effeithio ar ddysgwyr ar draws y darparwr neu'r ddarpariaeth. Dylai dysgwyr ymgysylltu â phenderfyniadau sy'n cwmpasu taith y dysgwr yn ei chyfanrwydd gan gynnwys prosesau pontio i'r darparwr, drwyddo ac allan ohono.

Gall cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad unigol yr holl ddysgwyr gynnwys arolygon dysgwyr, sianeli digidol ac ymgysylltu anffurfiol â staff darparwyr. Bydd ymgysylltu mwy ffurfiol a strategol yn aml yn cynnwys llais dysgwyr ar y cyd trwy gynrychiolwyr cyrsiau, cynghorau dysgwyr neu undebau myfyrwyr a thrwy rolau fel dysgwyr/myfyrwyr-lywodraethwyr. Er bod gofynion y Cod yn nodi bod rhaid i ddarparwr gynnig ystod eang o gyfleoedd i'r holl ddysgwyr ymgysylltu neu gael eu cynrychioli yn eu prosesau penderfynu, nid yw'n ofynnol i ddysgwyr ymgysylltu a gallant ddewis peidio â gwneud hynny.

## Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

### Enghraifft 1: Strategaeth Llais y Dysgwr gan Ddarparwr

Mae'r enghraifft hon yn berthnasol ar draws addysg drydyddol ac ymchwil a dylid ei hystyried yng nghyd-destun penodol darparwr, lle defnyddir enwau strategaethau a phwyllgorau gellir disodlir rhain â dewisiadau eraill perthnasol.

Mae darparwr yn datblygu, yn adolygu ac yn cynnal Strategaeth Llais y Dysgwr gydag ymgysylltiad gan ddysgwyr a staff.

Mae'r strategaeth yn ystyried yr holl ddysgwyr, ni waeth beth fo'u dull, lefel na lleoliad astudio gan ystyried nodweddion dysgwyr (er enghraifft, anghenion dysgu ychwanegol) a chyfle cyfartal. Mae'r strategaeth yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer dysgwyr a phob lefel staff i ddarparu cyfleoedd effeithiol i ddysgwyr ymgysylltu â phrosesau penderfynu'r darparwr ac i wrando ar eu barn a gweithredu arni lle bynnag y bo modd. Hyfforddir staff i helpu i sicrhau eu bod yn deall beth ddisgwylir ganddynt.

Mae'r strategaeth yn nodi dulliau eglur a hygyrch ar gyfer llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr a sut y mae llais y dysgwr yn bwydo i mewn i strwythur llywodraethu a phrosesau penderfynu'r darparwr.

Mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol, gyda dysgwyr a staff, ac yn cael ei pherchnogi gan Bwyllgor Llais y Dysgwr y darparwr. Mae'r strategaeth yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu i fynd ati'n barhaus i wella llais y dysgwr ac ymgysylltiad â dysgwyr ac i fynd i'r afael â bylchau a adnabuwyd trwy'r adolygiad o'i heffeithiolrwydd. Mae hefyd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd yn galluogi'r darparwr i werthuso effeithiolrwydd ei strategaeth.

### Enghraifft 2: Siarter Myfyrwyr

Daw'r enghraifft hon o gyd-destun addysg uwch lle mae siarterau myfyrwyr yn arfer sydd wedi hen ennill ei blwyf a ategir gan arweiniad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gynt. Gall egwyddorion datblygu siarterau o'r fath fod yn berthnasol mewn meysydd eraill o fewn addysg drydyddol ac ymchwil.

Mae prifysgol yn datblygu, yn adolygu ac yn cynnal Siarter Myfyrwyr mewn partneriaeth gyda myfyrwyr a staff.

Mae'r Siarter Myfyrwyr yn nodi disgwyliadau, hawliau a chyfrifoldebau cydfuddiannol y brifysgol a'i myfyrwyr, gyda dolenni i ragor o wybodaeth sydd wedi'i bwriadu i ategu profiad dysgu'r myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys y dull partneriaeth o ennyn ymgysylltiad myfyrwyr a llais myfyrwyr ym mhroses benderfynu'r brifysgol a rôl Undeb y Myfyrwyr o ran cynrychioli llais myfyrwyr yn annibynnol. Mae hefyd yn cynnwys ffyrdd y gall myfyrwyr godi pryderon a chwynion. Mae'n ddogfen lefel uchel, sy'n cyd-fynd â chyfeiriad strategol y brifysgol ac mae'n berthnasol i'r ystod amrywiol o fyfyrwyr o fewn y brifysgol a thrwy unrhyw drefniadau dilysu, gan ystyried anghenion unigol myfyrwyr. Mae'r Siarter yn ddogfen fyw, sy'n cael ei rhannu'n weithredol a'i thrafod gyda myfyrwyr trwy gydol eu hamser yn y brifysgol.

Mae'r Siarter Myfyrwyr yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan Undeb y Myfyrwyr mewn partneriaeth gydag uwch dîm arwain y darparwr. Mae datblygu ac adolygu'r Siarter Myfyrwyr yn bwydo i mewn i strwythur llywodraethu'r darparwr trwy'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, a gaiff ei gyd-gadeirio gan gynrychiolydd ar ran Undeb y Myfyrwyr.

DRAFT

**Cwestiynau adfyfyriol:**

Ble mae penderfyniadau’n cael eu gwneud o fewn y darparwr? Sut y mae dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y mannau hynny? Sut y mae cynrychiolwyr dysgwyr a/neu gyrff cynrychioli dysgwyr (lle maent yn bodoli) yn cael eu cynnwys yn y mannau hynny?

Ar ba adegau yn nhaith y dysgwr y mae dysgwyr yn cael eu gwahodd yn weithredol i siapio eu profiadau? A oes unrhyw fylchau?

Sut y mae dysgwyr yn ymgysylltu â phrosesau penderfynu strategol yn ogystal â materion gweithredol, o ddydd i ddydd? A oes unrhyw fylchau?

Sut y mae dysgwyr yn cael eu cynnwys yn strwythurau llywodraethu'r darparwr?

Pa dystiolaeth o ymgysylltu â dysgwyr a gyflwynir i lywodraethwyr? A ydynt yn cael tystiolaeth o effaith?

**Egwyddor 2: Yn Cael Ei Werthfawrogi**

**Gwrandewir arnaf ac rwy’n cael fy ngrymuso i siapio fy mhrofiad dysgu cyfan trwy ymgysylltu â phrosesau penderfynu fy narparwr.**

Mae dysgwyr yn gweld tystiolaeth bod eu hadborth wedi cael ei ystyried ac y gweithredwyd lle’r oedd yn bosibl. Mae'r amgylchedd dysgu wedi'i ddylunio i alluogi deialog agored, dryloyw i groesawu adborth a galluogi dysgwyr i gyfrannu'n effeithiol at brosesau penderfynu sy'n ysgogi gwelliant parhaus. Cynigir gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth i ddysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr i hwyluso ymgysylltu a chynrychiolaeth effeithiol. Lle mae dysgwyr yn aelodau o bwyllgorau a byrddau darparwyr, maent yn cael hyfforddiant a chymorth i gyflawni eu rolau ac yn cael cynnig cymorth i baratoi ar gyfer cyfarfodydd, a allai gynnwys cyfleoedd i drafod papurau a chodi cwestiynau. Mae hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr dysgwyr yn hygyrch mewn fformatau sy'n addas ar gyfer profiad y dysgwyr, er enghraifft defnyddio platfformau digidol a gweithgareddau anghydamserol lle y bo’n briodol. Yn ogystal â chynnwys gwybodaeth ymarferol i gyflawni eu rolau, mae hyfforddiant yn cefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu a hyder i ddysgwyr eu defnyddio fel cynrychiolwyr a’r tu hwnt.

Mae dysgwyr yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu hymgysylltiad. Gallai hyn fod, er enghraifft, trwy gynlluniau cydnabyddiaeth a digwyddiadau dathlu; cynnig bwrsariaethau, cymhellion ariannol neu ad-daliadau i liniaru rhwystrau i ymgysylltu; neu drwy achredu ymgysylltiad fel rhan o gwrs, credyd neu fathodyn digidol.

Mae'r amgylchedd dysgu’n galluogi dysgwyr i deimlo'n hyderus y bydd eu hadborth yn cael ei ystyried yn sensitif ac yn gyfrinachol, yn unol â deddfau diogelu data a pholisïau darparwyr. Fe’i gwneir yn glir i ddysgwyr bod adborth gonest, boed yn gadarnhaol neu'n feirniadol, yn cael ei groesawu i wella ansawdd eu profiad dysgu ac na fydd darparu adborth yn cael unrhyw effaith ar eu graddau, eu hasesu na’u statws academaidd.

## Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

**Enghraifft 1: Cynhadledd Llais y Dysgwr**

Daw’r enghraifft hon o arfer a welir mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Gellir ystyried elfennau o'r arfer hwn ar draws addysg drydyddol ac ymchwil gyda golwg ar y gallu i dyfu yn unol â’r anghenion a chymhwysedd i wahanol fathau o ddysgwyr.

Cynhelir cynhadledd flynyddol yn nhymor yr hydref i groesawu cynrychiolwyr dysgwyr sy’n newydd ac sy'n dychwelyd. Darperir lluniaeth i gynrychiolwyr dysgwyr trwy gydol y dydd ac fe'u cynorthwyir i fod yn bresennol trwy eu rhyddhau o sesiynau wedi’u hamserlennu. Mae cyllid ar gael i'r rhai na fyddent fel arfer yn bresennol ar y diwrnod hwn i dalu am dreuliau ychwanegol a geir.

Mae'r gynhadledd yn cynnwys sesiynau hyfforddi i gynorthwyo cynrychiolwyr dysgwyr i gyflawni eu rolau’n effeithiol. Gall cynrychiolwyr sy'n dychwelyd rannu eu profiadau ac, ochr yn ochr â staff, darparu enghreifftiau o effaith llais y dysgwr ac ymgysylltiad dysgwyr. Gwahoddir cynrychiolwyr i ymuno â gweithdai ar faterion a phenderfyniadau allweddol sy'n deillio o weithgarwch llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr blaenorol, mae'r sesiynau hyn yn cynnwys rhannu llais y dysgwr a datblygu datrysiadau mewn partneriaeth gyda dysgwyr a staff. Mae camau gweithredu a syniadau sy'n deillio o'r gweithdai’n bwydo i mewn i gynllun gweithredu llais y dysgwr y darparwr sy'n cael ei drafod yn y Cyngor Dysgwyr sy'n bwydo i mewn i’r Pwyllgor Profiad Dysgwyr. [2].

**Enghraifft 2: Ymgysylltu rhwng Myfyrwyr-Lywodraethwyr a Chadeirydd y Corff Llywodraethu**

Daw’r enghraifft hon o ymarfer mewn sefydliad addysg bellach; gellir ei chymhwyso ar draws addysg drydyddol ac ymchwil lle mae cefnogaeth i gynrychiolwyr dysgwyr a llywodraethwyr dysgwyr yn gwella effeithiolrwydd ymgysylltu â dysgwyr.

Mae Pennaeth y sefydliad wedi sefydlu perthynas agored sy’n seiliedig ar ymddiriedaeth rhyngddynt hwy eu hunain a'r myfyrwyr-lywodraethwyr. Mae perthynas debyg yn cael ei sefydlu rhwng Cadeirydd y Bwrdd a'r ddau fyfyriwr-lywodraethwr. Unwaith y maent wedi cael eu penodi, mae myfyrwyr-lywodraethwyr yn cael hyfforddiant a rhaglen sefydlu ar gyfer y Bwrdd, fel rhan o'r broses hon maent yn cael cyfarfod anffurfiol gyda'r Cadeirydd i ddechrau sefydlu eu perthynas. Mae'r Cadeirydd yn bwriadu ymuno â thrafodaeth gyda'r myfyrwyr-lywodraethwyr a'r staff sy'n eu cefnogi i archwilio'r rôl unigryw a'r heriau cysylltiedig i fyfyriwr-lywodraethwr. Gwneir cytundeb dilynol sy'n nodi sut y bydd y Cadeirydd a’r myfyrwyr-lywodraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y cymorth y gall y Cadeirydd ei gynnig.

## Cwestiynau adfyfyriol:

Sut y cynorthwyir dysgwyr i ddatblygu'r gallu a'r hyder y mae eu hangen ar gyfer ymgysylltu ystyrlon â phrosesau penderfynu? Sut mae hyn yn cael ei deilwra i adlewyrchu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol?

Sut mae cyfleoedd ymgysylltu â dysgwyr yn rhychwantu taith y dysgwr yn ei chyfanrwydd? A oes unrhyw fylchau?

DRAFT

[2] Ceir rhagor o wybodaeth am fecanweithiau llais dysgwyr ar y cyd yn Egwyddor 6.

Sut mae dysgwyr yn cael eu gwahodd i roi adborth ac ymgysylltu â phenderfyniadau y tu hwnt i'w profiad dysgu uniongyrchol fel materion ystadau, cymorth dysgu ac adnoddau?

Sut mae cynrychiolwyr dysgwyr yn cael eu cydnabod am eu cyfraniadau?

### Egwyddor 3: Yn Cael Ei Ddeall

**Rwy'n gwybod ble a sut i godi syniadau a rhannu meddyliau ar bynciau sy'n bwysig i mi a phynciau a godir gan fy narparwr addysg.**

Mae llwybrau a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn glir. Mae cyfleoedd yn cael eu cyfleu i bob dysgwr. Mae dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i ymgysylltu â thrafodaethau am bynciau a phenderfyniadau a gynigir gan eu darparwr ac yn cael cyfleoedd i gynnig pynciau a phenderfyniadau sy'n bwysig iddynt. Mae staff yn ymwybodol o'u rôl ym maes ymgysylltu â dysgwyr a gallant gyfeirio dysgwyr at gyfleoedd i ymgysylltu.

Mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu darparu trwy ystod o fecanweithiau, y mae rhai ohonynt yn agored i bob dysgwr megis arolygon a chyfarfodydd yn neuadd y dref, a rhai'n fecanweithiau lle gall cynrychiolwyr dysgwyr godi a rhannu barn gyfunol trwy ymgysylltu â thrafodaeth pwyllgor neu bennu agendâu. Mae darparwyr yn ei gwneud yn glir pa bwyllgorau a grwpiau sydd â chynrychiolaeth o blith dysgwyr a sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'u strwythurau llywodraethu ehangach, gan ddangos y llwybrau ar gyfer llais y dysgwr a chymorth i gynrychiolwyr. Mae'r cyfleoedd i ddysgwyr weithio gyda'r darparwr i benderfynu sut y cânt eu cynnwys yn y strwythur llywodraethu yn dangos dull aeddfed o ymgysylltu â dysgwyr.

Defnyddir llais y dysgwr o arolygon neu weithgareddau adborth eraill hefyd i adnabod themâu allweddol sy'n bwysig neu'n peri bryder i ddysgwyr. Mae'r themâu hyn yn cael eu harchwilio ymhellach gyda dysgwyr trwy strwythurau cynrychioli, grwpiau ffocws neu ymgysylltu wedi'i dargedu a gallant helpu i ffurfio agendâu ar gyfer trafod gyda dysgwyr a goleuo trafodaeth a phrosesau penderfynu drwy holl strwythur llywodraethu'r darparwr.

### Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

**Enghraifft 1: Strategaeth Cynnwys Dysgwyr**

Daw'r enghraifft hon o arfer mewn addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a darpariaeth prentisiaethau lle'r oedd arweiniad a gyhoeddwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol datblygu strategaethau o'r fath. Gellir ystyried yr enghraifft hon ar draws addysg drydyddol ac ymchwil lle mae defnyddio dull strategol o ymgysylltu â dysgwyr yn helpu i'w wreiddio ar draws darparwr.

Mae Strategaeth Cynnwys Dysgwyr y darparwr yn amlinellu'r mecanweithiau ar gyfer llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr i fwydo i mewn i brosesau penderfynu'r darparwr ac i ddysgwyr rannu adborth ar faterion sy'n peri pryder neu sydd o bwys iddynt.

Mae'r strategaeth ar gael ar wefan y darparwr a'i amgylchedd dysgu rhithwir. Mae fersiwn ddiagramatig o'r mecanweithiau ar gyfer llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr wedi cael ei llunio. Mae hon yn dangos yr ystod o gyfleoedd i ddysgwyr a sut y mae'r rhain yn bwydo i mewn i strwythur llywodraethu a phrosesau penderfynu'r darparwr. Mae copïau o'r

diagram i'w gweld ledled y campws ar sgriniau, posteri ac maent wedi'u hymgorffori yn Llawlyfr y Dysgwr.

**Enghraifft 2: Mentrau dan arweiniad dysgwyr**

Daw'r enghraifft hon o'r chweched dosbarth mewn ysgol a gynhelir; gellir ei chymhwyso ar draws addysg drydyddol ac ymchwil lle gall dysgwyr gael cyfleoedd i godi pynciau sy'n bwysig iddynt hwy i arwain arnynt trwy gyfrwng prosiectau neu fentrau gyda'u darparwr.

Fe wnaeth dysgwyr chweched dosbarth adnabod meysydd allweddol a oedd o bwys iddynt hwy a chymuned eu hysgol, gan gynnwys llesiant a'r amgylchedd. Gan weithio gyda staff, cynorthwywyd y dysgwyr i arwain prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau codi arian i godi ymwybyddiaeth o'u pynciau allweddol ar draws yr ysgol ac yn eu cymuned leol. Mae enghreifftiau'n cynnwys digwyddiadau casglu ar gyfer banciau bwyd lleol, ymgyrchoedd ailgylchu sy'n gwneud ailgylchu'n hwyl ac yn hygyrch o fewn yr ysgol ac wythnos llesiant lle'r oedd dysgwyr yn gallu cynnal stondinau dros dro a digwyddiadau, a gefnogwyd gan staff trwy wahodd siaradwyr gwadd ac ymgorffori gweithgareddau o fewn sesiynau a addysgir drwy'r ysgol, gan gynnwys gwahodd dysgwyr chweched dosbarth i siarad gyda grwpiau oedran eraill.

### Cwestiynau adfyfyriol:

Pa mor glir yw ein proses ar gyfer casglu adborth dysgwyr, ei gofnodi ac ymateb iddo?

Sut ydyn ni'n sicrhau bod yr holl staff a dysgwyr yn deall cyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr?

Pa fannau a chyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr archwilio a rhannu'r pynciau sy'n bwysig iddynt?

Pan fydd dysgwyr yn cael eu gwahodd i ymgysylltu â phrosesau penderfynu, sut y mae prosesau penderfynu gwybodus ac effeithiol yn cael eu galluogi?

Sut y mae llywodraethwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o sut y mae dysgwyr wedi codi neu gyfrannu at bynciau a phenderfyniadau? Os oes gan y darparwr ddysgwyr-lywodraethwyr, pa mor effeithiol yw'r cymorth iddynt gyfrannu at wneud penderfyniadau?

DRAFT

**Egwyddor 4: Yn Gynhwysol**

**Mae'r cyfleoedd i mi a dysgwyr eraill ymgysylltu â phrosesau penderfynu'n adlewyrchu ein hanghenion, diddordebau a galluoedd amrywiol i ymgysylltu.**

Trwy ystod o gyfleoedd, mae ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau penderfynu darparwr yn hygyrch i bob dysgwr. Mae darparwyr yn gweithio gyda'u carfannau amrywiol o ddysgwyr i ddeall y ffyrdd y gallant, ac yr hoffent, ymgysylltu â phrosesau penderfynu. Mae'r mecanweithiau sydd wedi'u bwriadu i gefnogi'r ymgysylltu hwn yn adlewyrchu'r dymuniadau a'r galluoedd hynny ac yn dileu rhwystrau i ymgysylltu lle bynnag y bo modd. Maent yn ddigon hyblyg i gydnabod ymrwymiadau ac argaeledd presennol dysgwyr.

Mae'r amrywiaeth o adborth a chynrychiolaeth yn cael ei hystyried, ac mae'r darparwr yn ymwybodol o leisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn rheolaidd o bosibl. Mae'r darparwr yn cefnogi ei strwythurau cynrychioli i ennyn ymgysylltiad a chynrychioli pob dysgwr, gan ddarparu mynediad at fannau a chyfleoedd ar gyfer cyfathrebu gyda chynulleidfaoedd dysgwyr eang lle bynnag y bo modd. Lle y bo'n briodol, mae cyfleoedd ymgysylltu wedi'u targedu at grwpiau o ddysgwyr i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y prosesau hyn lle y bo angen, er enghraifft ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol y gall fod arnynt angen cymorth i eirioli drostynt hwy eu hunain.

Mae cynhwysiant ymgysylltiad â dysgwyr yn cael ei gyflawni'n fwyaf effeithiol pan fydd darparwyr, a strwythurau cynrychioli (lle maent yn bodoli), yn deall gwybodaeth ddemograffig eu dysgwyr trwy gasglu data mewn modd effeithiol. Gellir defnyddio dealltwriaeth am ddemograffeg dysgwyr wrth ddylunio a gwerthuso gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr i adnabod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan oleuo camau gweithredu pellach i gynyddu ymgysylltiad pob dysgwr.

## Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

**Enghraifft 1: Cymdeithasau a rhwydweithiau a arweinir gan ddysgwyr**

Daw'r enghraifft hon o addysg bellach; ceir enghreifftiau tebyg mewn addysg uwch lle mae undeb myfyrwyr yn cynnig y cymorth i glybiau a chymdeithasau myfyrwyr ac yn gweithio gydag arweinwyr myfyrwyr i gasglu adborth ac ennyn eu hymgysylltiad â phrosesau penderfynu darparwyr ac undebau myfyrwyr.

Cynorthwyir dysgwyr i arwain grwpiau cymdeithasol sy'n ymwneud â'u cwrs neu ddiddordeb. Mae'r tîm profiad dysgwyr yn cefnogi dysgwyr gyda mynediad at gyllid, llwyfannau i gyfathrebu gyda'r gymuned dysgwyr ehangach a chyfleoedd i archebu mannau ar y campws. Roedd rhai grwpiau dysgwyr yn dewis cwrdd yn rheolaidd ar y campws tra bo eraill yn gallu trefnu nifer fach o ddigwyddiadau mwy o faint y flwyddyn. Lle mae grwpiau'n gysylltiedig â chwrs neu bwnc, gall timau academaidd gynnig cymorth ychwanegol ar gyfer amser yn y dosbarth a mynediad at adnoddau. Mae rhai grwpiau sy'n gysylltiedig â phynciau'n gweithio gyda thimau academaidd i drefnu digwyddiadau sy'n cynnwys siaradwyr gwadd a gwibdeithiau. Trwy'r tîm profiad dysgwyr, gall y darparwr gwrdd â dysgwyr ble maent hwy i gasglu adborth am eu profiad fel dysgwyr. Gwahoddir

arweinwyr grŵp i gynrychioli barn eu grwpiau, ac mae rhai grwpiau wedi dewis trefnu cyfarfodydd sy'n cynnwys sesiynau grwpiau ffocws neu rannu adborth gyda'r darparwr.

**Enghraifft 2: Arolygon hygyrch**

Daw'r enghraifft hon o leoliad dysgu oedolion yn y gymuned; gwelir arfer tebyg mewn addysg bellach hefyd. Gellir cymhwyso cyfleoedd i addasu dulliau llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr ar draws addysg drydyddol ac ymchwil.

Fel rhan o'i gylch blynyddol o arolygon dysgwyr, defnyddiodd y darparwr Lawlyfr Clir a Hawdd Anabledd Dysgu Cymru[3] i ddatblygu arolwg hawdd-i'w-ddarllen ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu. Cafodd yr arolwg ei ddrafftio gyda gweithwyr cymorth dysgu gan ddefnyddio symbolau ac iaith symlach, ac roedd wedi'i fwriadu i gyd-fynd â'r themâu o brif arolwg dysgwyr y darparwr.

Fe wnaeth y darparwr dreialu'r arolwg gyda grŵp o ddysgwyr o'i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu, i brofi a oedd y fformat yn glir ac yn ddealladwy. Dangosodd y peilot fod angen rhagor o amser ar rai dysgwyr yn y boblogaeth darged i feddwl am y cwestiynau, a bod ar rai angen help gan staff i ddeall beth oedd yn cael ei ofyn. Arweiniodd hyn at gyfnod estynedig o brofi a wnaeth hefyd geisio barn gan rieni a gofalwyr, i helpu i sicrhau bod yr arolwg mor gynhwysol â phosibl.

**Cwestiynau adfyfyriol:**

Sut ydym yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr, ni waeth beth fo'u lefel, dull astudio, lleoliad, gallu neu anghenion ychwanegol, yn gallu ymgysylltu'n ystyrlon â phrosesau penderfynu? A yw rhai grwpiau o ddysgwyr yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ystyrlon?

Pa systemau a roddwyd yn eu lle i gael gwared ar rwystrau i ymgysylltu â dysgwyr? A yw'r rhain yn effeithiol?

Sut ellir mesur cynrychioldeb llais y dysgwyr a gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr i'w gwneud yn bosibl adnabod bylchau a rhwystrau posibl?

DRAFT

[3] https://www.ldw.org.uk/cy/er-resource/llawlyfr-clir-a-hawdd/

**Egwyddor 5: Yn Ddwyieithog**

**Gallaf ymgysylltu â phrosesau penderfynu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gennyf gyfleoedd i gael fy nghynnwys yn null fy darparwr addysg lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cwestiwn ac o ran sut y mae'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.**

Gall dysgwyr rannu eu hadborth ac ymgysylltu â phrosesau penderfynu eu darparwr gan ddefnyddio'r Gymraeg os ydynt yn dewis. Dylai'r ymgysylltu hwn gael ei gefnogi'n frwd gan y darparwr, gan sicrhau nad yw unrhyw ddysgwr dan anfantais, nac yn profi oedi nac yn cael ei eithrio yn seiliedig ar ei ddewis iaith.

Yn unol ag amod cofrestru a chyllid Medr ar gyfer y Gymraeg, rhaid i ddysgwyr gael ymgysylltu â datblygu, monitro a gwerthuso strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y darparwr a dylai strategaethau i gynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu cyfranogiad yn yr addysg honno gael eu datblygu, eu monitro a'u gwerthuso gyda dysgwyr.

## Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

### Enghraifft 1: Y Gymdeithas Gymraeg

Daw'r enghraifft hon o addysg uwch; ceir cymdeithasau tebyg mewn rhai sefydliadau addysg bellach hefyd. Gall cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu'n gymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg a diwylliant Cymru gael effaith gadarnhaol ar brofiad dysgwyr trwy gydol addysg drydyddol ac ymchwil.

Cymdeithas a arweinir gan fyfyrwyr sy'n cael ei rhedeg trwy gyfrwng y Gymraeg yw'r Gymdeithas Gymraeg (neu'r Gym Gym). Mae'r gymdeithas yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr Cymraeg gymdeithasu a rhwydweithio â'i gilydd ac mewn digwyddiadau rhyng-golegol gyda chymdeithasau Cymraeg o ddarparwyr eraill. Rhan allweddol o'r gymdeithas yw dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru a chefnogi ymdeimlad o berthyn i'w haelodau. Gwahoddir arweinwyr y gymdeithas i gynrychioli barn aelodau gerbron Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol ar bob mater sy'n ymwneud â phrofiad dysgwyr ac yn arbennig i roi cymorth i ddathlu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gysylltu'n agos â chynrychiolwyr cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Brifysgol.

## Cwestiynau adfyfyriol:

A yw'r wybodaeth am sut i roi adborth ac ymgysylltu â phrosesau penderfynu ar gael yn Gymraeg?

A yw ymatebion i adborth dysgwyr yn cael eu cyfleu yn Gymraeg?

Sut ydyn ni'n sicrhau bod profiad tebyg i ddysgwyr sy'n ymgysylltu trwy'r Gymraeg a'r Saesneg?

Sut y mae dysgwyr wedi cael ymgysylltu, a llais y dysgwr wedi cael ei ystyried, mewn strategaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a diwylliant Cymru? Sut yr eir ati i ennyn

DRAFT

ymgysylltiad dysgwyr mewn modd ystyrlon â gweithgarwch i fonitro a gwerthuso'r strategaethau hyn?

### Egwyddor 6: Yn Unigol a Chyfunol

**Yn ogystal â'r cyfleoedd i mi ymgysylltu â phrosesau penderfynu fy narparwr, fel dysgwyr rydym yn cael ein cynorthwyo i rannu ein lleisiau gyda'n gilydd i ymgysylltu ar y cyd â phrosesau penderfynu i siapio'r profiad dysgu.**

Mae darparwyr yn cynorthwyo dysgwyr i gydlynu eu llais cyfunol. Gall hyn fod trwy gefnogi rolau a strwythurau cynrychioli fel cynrychiolwyr cyrsiau a chynghorau dysgwyr neu gyrff cynrychioliadol, neu drwy gyllido a chydnabod undeb myfyrwyr annibynnol. Mae'r mecanweithiau hyn, ochr yn ochr â lleisiau dysgwyr unigol, yn rhan o holl brosesau penderfynu darparwyr sy'n ymwneud â phrofiad dysgwyr, yn adlewyrchu carfannau o ddysgwyr ac yn cael eu cyfleu'n glir ac yn hygyrch i bob dysgwr fel rhan o ddull cydlynol o ymgysylltu â dysgwyr.

Pan fydd dysgu'n digwydd yn annibynnol, er enghraifft dysgu ar-lein, o bell neu yn y gweithle, dylai darparwyr weithio gyda dysgwyr i ddylunio cyfleoedd effeithiol ar gyfer llais cyfunol. Gall hyn gynnwys gweithgarwch cydamserol ac anghydamserol ar-lein, rhwydweithiau neu gymunedau dysgwyr, strwythurau cynrychioliadol neu undebau myfyrwyr.

Efallai y bydd rhai dysgwyr yn teimlo'n llai cysylltiedig â'r darparwr neu'r gymuned dysgwyr; efallai y byddant yn astudio o bell neu o'u gweithle yn bennaf, efallai y bydd eu hymgysylltiad yn cael ei hwyluso'n amlach na pheidio trwy berthynas unigol ag aelod o staff megis asesydd neu diwtor, ond rhaid i'w barn ddal i fod yn rhan o brosesau penderfynu'r darparwr yn unol â gofynion y Cod. Mae'n bwysig bod yr ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â phrosesau penderfynu'n adlewyrchu'r dulliau astudio amrywiol a phrofiadau amrywiol dysgwyr.

### Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

**Enghraifft 1: Cynrychiolwyr Dysgwyr**

Daw'r enghraifft hon o addysg bellach. Ceir cynrychiolwyr dysgwyr drwy addysg drydyddol ac ymchwil; mewn addysg uwch mae etholiadau, cymorth a gweinyddiaeth ar gyfer strwythurau cynrychioliadol fel arfer yn gorwedd gydag undeb y myfyrwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'u prifysgol.

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, mae pob dosbarth yn ethol o leiaf un cynrychiolydd dosbarth. Mae'r broses hon yn cael ei hwyluso gan dîm y cwrs sy'n rhannu gwybodaeth am y rôl, fel y'i darperir gan Dîm Llais y Dysgwr, ac yn cynnig lle yn ystod sesiynau a addysgir i ddysgwyr hunan-enwebu ar gyfer etholiad. Mae enwau pob cynrychiolydd yn cael eu rhannu gyda Thîm Llais y Dysgwr sy'n lledaenu Llawlyfrau Cynrychiolwyr Dosbarth ac yn gwahodd pob cynrychiolydd i sesiynau hyfforddi a gynhelir ar y campws ac ar-lein. Gwahoddir cynrychiolwyr dosbarth i gyfarfod tymhorol eu hadran i rannu adborth dysgwyr, gwneud sylwadau ar eitemau a godwyd gan y darparwr a chymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael ar yr amgylchedd dysgu rhithwir ac maent yn bwydo i fyny i'r Pwyllgor Profiad Dysgwyr. Mae

cynrychiolwyr dosbarth hefyd yn gallu enwebu eu hunain i ddod yn aelodau o'r Cyngor Dysgwyr, ac mae'r rolau hyn yn cael eu llenwi mewn etholiad traws-ddarparwr. Mae'r Cyngor Dysgwyr hefyd yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Profiad Dysgwyr; mae'n cael ei gyd-gadeirio gan gynrychiolwyr dysgwyr a Thîm Llais y Dysgwr sy'n pennu'r agenda ar y cyd. Mae cofnodion y Cyngor Dysgwyr hefyd ar gael ar yr amgylchedd dysgu rhithwir i bob dysgwr eu gweld.

**Enghraifft 2: Undeb y Myfyrwyr**

Daw'r enghraifft hon o addysg uwch lle mae undebau myfyrwyr yn gyrff cynrychioli annibynnol fel a nodir yn Neddf Addysg 1994. Ceir undebau myfyrwyr mewn rhai sefydliadau addysg bellach hefyd ond nid ydynt fel arfer yn annibynnol ar y darparwr. Mae'r ddau'n cyflawni rôl bwysig o ran cynrychioli buddiannau dysgwyr yn eu cyd-destunau penodol.

Mae aelodaeth Undeb y Myfyrwyr (UM) yn cynnwys myfyrwyr yn y brifysgol ac mae'r undeb yn cael ei arwain gan fyfyrwyr a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae Undeb y Myfyrwyr yn elusen gyda'i Bwrdd Ymddiriedolwyr ei hun, y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyfyrwyr. Mae ganddo amcanion elusennol sy'n cynnwys cynrychioli myfyrwyr i'r darparwr, darparu gwasanaethau i'w aelodau (er enghraifft gwasanaeth cynghori annibynnol), a chreu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac allgyrsiol (er enghraifft clybiau chwaraeon a chymdeithasau). Mae Undeb y Myfyrwyr yn cael ei arwain yn ddemocrataidd gan fyfyrwyr ar ffurf cyfarfodydd democrataidd a thîm o fyfyrwyr-swyddogion amser llawn a rhan-amser, wedi'u hethol gan eu cymheiriaid i wasanaethu am dymor o un flwyddyn academaidd; cefnogir y swyddogion hyn gan dîm o staff sy'n annibynnol ar y darparwr.

Undeb y Myfyrwyr yw sianel gydnabyddedig llais myfyrwyr yn y brifysgol, yn unol â'r cytundeb perthynas rhyngddynt ac fe gyfeirir ato'n aml fel cyfaill beirniadol i'r brifysgol, i ddarparu cefnogaeth a her i wella profiad myfyrwyr. Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr wedi'u hymgorffori yn strwythurau llywodraethu a phenderfynu'r darparwr i gynrychioli barn myfyrwyr, yn ogystal â bod â'u pwyllgorau a'u prosesau UM eu hunain sy'n ennyn ymgysylltiad myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr â phrosesau penderfynu. Swyddogion Undeb y Myfyrwyr yw'r myfyrwyr-lywodraethwyr ar gorff llywodraethu'r darparwr.

Mae'r darparwr ac Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ar feysydd sy'n ymwneud â phrofiad myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys rhannu a dadansoddi data (e.e. o arolygon myfyrwyr) a datblygu cynlluniau gweithredu, polisïau a strategaethau gyda'i gilydd. Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr:

- yn gweithio gyda'r brifysgol i weld newidiadau'n cael eu rhoi ar waith er budd myfyrwyr
- yn cael eu cynnwys o'r dechrau wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu, polisïau a strategaethau
- yn herio ac yn darparu adborth adeiladol i'r darparwr lle y bo angen ar unrhyw gamau gweithredu neu faterion sy'n effeithio ar brofiad myfyrwyr
- yn ymgysylltu â chynrychiolwyr myfyrwyr ar lefel cyrsiau neu bynciau

### Cwestiynau adfyfyriol:

Sut ydym yn sicrhau bod mathau o lais cyfunol dysgwyr yn cynrychioli pob dysgwr?

Lle mae corff sy'n cynrychioli dysgwyr yn bodoli, sut y mae'n cael ei ymgorffori mewn cyfleoedd i wneud penderfyniadau fel llais annibynnol dysgwyr?

DRAFT

Pa fecanweithiau sy’n bodoli ar gyfer coladu adborth ac ymgysylltiad unigol lle mae teithiau dysgwyr yn gwbl annibynnol, er enghraifft, y rhai sy'n astudio o bell neu yn eu gweithle yn bennaf?

### Egwyddor 7: Yn Cael Effaith Fawr

**Mae fy ymgysylltiad yn rhan o ddeialog barhaus lle mae deilliannau a newidiadau’n cael eu trafod a'u hadolygu, lle’r ydym ni i gyd yn gallu gweld effaith hyn ar y profiad dysgu yn awr ac ar gyfer dysgwyr yn y dyfodol.**

Mae ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesu penderfynu darparwr yn symud y tu hwnt i gasglu adborth ac ymateb iddo mewn modd trafodaethol i ennyn ymgysylltiad dysgwyr â'r camau gweithredu sy'n deillio o hynny a gwerthuso newid yn barhaus. Er bod rhai dysgwyr yn cael eu cynnwys yn fwy gweithredol mewn prosesau penderfynu, mae pob dysgwr yn cael ei wneud yn ymwybodol o drafodaethau a deilliannau.

Pan na ellir gweithredu newid y gofynnwyd amdano gan ddysgwyr, trafodir hyn gyda dysgwyr ac fe'i cyfleir yn eang. Mae dysgwyr yn cael ymgysylltu â dod o hyd i ddatrysiadau eraill lle bynnag y bo modd. Mewn achosion lle mae newidiadau’n debygol o ddigwydd dros gyfnod hwy, mae dysgwyr yn gweithio gyda'u darparwr i adnabod yr effeithiau bwriadedig ar ddysgwyr yn y dyfodol a sut y gellid gwerthuso'r rhain. Mae graddfeydd amser ar gyfer newid yn cael eu cyfleu’n glir i ddysgwyr, gan gynnwys unrhyw gerrig milltir y gellir eu cyrraedd ar gyfer carfannau presennol.

### Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

**Enghraifft 1: Fe Ddwedoch Chi, Fe Wnaethom Ni**

Gellir cymhwyso’r enghraifft hon ar draws addysg drydyddol ac ymchwil gan fwydo i mewn i fecanweithiau pwyllgorau, llywodraethu ac ymgysylltu â dysgwyr ehangach fel y bo'n briodol.

Mae'r darparwr yn cynnal arolygon pwls tymhorol i gasglu adborth dysgwyr. Ar ôl dadansoddi pob arolwg, mae'r darparwr yn gweithio gyda chynrychiolwyr dysgwyr i adnabod camau gweithredu neu ymatebion i adborth dysgwyr. Lle na ellir rhoi camau gweithredu ar waith, ceir cyfathrebu clir yn yr ymateb, gan reoli disgwyliadau. Mae cynlluniau gweithredu sy'n deillio o hynny’n cael eu monitro trwy bwyllgorau a phrosesau penderfynu’r darparwr. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r camau gweithredu a gymerwyd, mae ymgyrch Fe Ddwedoch Chi, Fe Wnaethom Ni yn cael ei lansio. Mae'r ymgyrch yn cynnwys posteri a sgriniau o amgylch y campws, ar yr amgylchedd dysgu rhithwir a chyfryngau cymdeithasol y darparwr. Mae'r ymgyrch yn rhannu enghreifftiau o adborth gan ddysgwyr a'r camau gweithredu arfaethedig o ganlyniad i hynny neu ymatebion i’r adborth hwnnw. Mae'r darparwr yn gweithio gyda chynrychiolwyr dysgwyr i werthuso effaith elfennau 'fe wnaethom ni' yr ymgyrch ac i barhau â'r ddolen ymgysylltu.

**Enghraifft 2: Cynllun Gweithredu Llais y Dysgwr**

Daw’r enghraifft hon o sefydliad addysg bellach ond gellir ei chymhwyso ar draws addysg drydyddol ac ymchwil. Mae gweithredu a monitro cynlluniau gweithredu sy'n ymateb i lais y

dysgwr yn enghraifft o ymgysylltu effeithiol â dysgwyr lle gall dysgwyr gael eu cynnwys trwy'r mecanweithiau ymgysylltu a chynrychioli yn eu cyd-destun hwy.
Mae'r Cynllun Gweithredu Llais y Dysgwr yn ddogfen fyw a berchnogir ar y cyd gan Bwyllgor Llais y Dysgwr a'r corff sy'n cynrychioli dysgwyr. Mae dadansoddiad o adborth dysgwyr yn cael ei fwydo i mewn i'r pwyllgor i oleuo'r cynllun gweithredu parhaus; mae ffynonellau'n cynnwys deilliannau arolwg dysgwyr; cofnodion pwyllgorau adrannol a'r cyngor dysgwyr; cwynion dienw gan ddysgwyr. Mae'r pwyllgor yn cytuno ar y camau gweithredu ac yn eu monitro, gan lunio adroddiad blynyddol ar gyfer Bwrdd y Llywodraethwyr.

### Cwestiynau adfyfyriol:

Sut y mae ymatebion i adborth dysgwyr yn cael eu cyfleu'n rheolaidd i'r holl ddysgwyr?

Pa gyfleoedd sydd gan ddysgwyr i ymateb i drafodaethau parhaus am benderfyniadau neu i ymgysylltu â hwy?

Sut y mae effaith ac effeithiolrwydd ymatebion i ymgysylltiad â dysgwyr yn cael eu monitro?

Sut y mae'r ddolen adborth yn cael ei rhannu trwy strwythurau llywodraethu'r darparwr? A yw llywodraethwyr yn cael gweld adborth dysgwyr, camau gweithredu a ddeilliodd o hynny a'u heffaith?

### Egwyddor 8: Yn Cael Adnoddau

**Mae adnoddau'n cael eu dyrannu gan fy narparwr addysg i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â phrosesau penderfynu.**

Mae ymgysylltu â dysgwyr yn cael adnoddau mewn ystod o ffyrdd; gall hyn gynnwys rolau ac amser a wedi'u neilltuo i staff; hyfforddiant ac arweiniad i staff a dysgwyr, neu fannau ar-lein ac wyneb-yn-wyneb. Pan fo undebau myfyrwyr annibynnol yn bodoli, dylent gael eu cyllido yn unol ag *Arweiniad diwygiedig ar arfer da wrth gyllido undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth o blith myfyrwyr.*[4]

Mae'r darparwr yn ymwybodol o'r arweiniad a'r adnoddau presennol a ddatblygwyd ar gyfer a chan y sector addysg drydyddol (gweler Atodiad A), ac yn eu haddasu i'w anghenion a'i amgylchiadau lleol.

### Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

**Enghraifft 1: Hyfforddiant i Gynrychiolwyr**
Daw'r enghraifft hon o addysg uwch lle mae'r UM annibynnol yn cymryd cyfrifoldeb am ethol, cefnogi a gweinyddu strwythurau cynrychioli. Ar draws pob rhan o addysg drydyddol ac ymchwil, mae cymorth a hyfforddiant i gynrychiolwyr dysgwyr yn hybu ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr.

[4] Mae Medr yn cymeradwyo'r arweiniad hwn gan CCAUC ac mae'n bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys dysgwyr, cynrychiolwyr dysgwyr a darparwyr i gyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru yn unol ag anghenion y sector, newidiadau mewn polisi ac adborth gan randdeiliaid.

Ar ôl cyfnod yr etholiadau ar gyfer cynrychiolwyr dosbarth, mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi ar y campws. Gwahoddir pob cynrychiolydd dosbarth sy'n newydd ac sy'n dychwelyd i'r digwyddiadau hyfforddi sy'n cael eu cyflwyno ar draws pob safle addysgu ar ystod o ddiwrnodau ac amseroedd. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyflwyniadau i strwythurau Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol a ffyrdd o weithio i gynrychiolwyr ddeall eu rolau o fewn y rhain. Rhoddir sylw i sgiliau ar gyfer bod yn gynrychiolydd effeithiol, a rhennir arweiniad pellach mewn llawlyfr cynrychiolydd sy'n cyfeirio at wasanaethau Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol ar gyfer cymorth ychwanegol. Yn dilyn y cyfleoedd hyfforddi yn y cnawd, mae Undeb y Myfyrwyr yn lansio ei fodiwl hyfforddi ar-lein, sydd ar gael trwy ei wefan. Mae'r hyfforddiant ar-lein yn cwmpasu'r un sgiliau a gwybodaeth allweddol â'r digwyddiadau yn y cnawd, ac mae'r llawlyfr cynrychiolydd ar gael ar-lein.

### Cwestiynau adfyfyriol:

A oes aelodau staff ar bob lefel yn y darparwr sydd â chyfrifoldebau am gefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr? A yw hyn wedi'i fynegi'n glir mewn swydd ddisgrifiadau ac amcanion?

A oes adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer galluogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr? Sut y mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru lle y bo angen?

### Egwyddor 9: Yn Cael Ei Werthuso

**Mae fy narparwr addysg yn gwerthuso'n rheolaidd sut y mae'n ymgysylltu â ni fel dysgwyr a pha un a yw hyn yn cwrdd â'n disgwyliadau. Maen nhw'n gweithio gyda ni i adnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y gellid ei wneud yn well ac i ddatblygu newidiadau ar gyfer gwella.**

Mae gwerthuso llais y dysgwr a gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr yn rhan allweddol o gylchoedd hunanwerthuso, ansawdd a gwella'n barhaus o fewn darparwr ac fe adlewyrchir hynny yn Fframwaith Ansawdd Medr. Mae adborth dysgwyr ac ymgysylltu â dysgwyr yn rhan allweddol o hyn i ddeall ble y cwrddwyd ac na chwrddwyd â disgwyliadau, ac i adnabod arfer da a meysydd ar gyfer gwella. Dylai cynlluniau ar gyfer gwella gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr gael eu datblygu gyda dysgwyr a chynnwys gwybodaeth am sut y bydd ymgysylltu parhaus â dysgwyr yn cael ei gynnwys ym mhob cam gweithredu. Dylid gwneud gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr a'r camau gweithredu sy'n deillio o hynny yn weladwy o fewn strwythurau llywodraethu a phenderfynu'r darparwr i godi ymwybyddiaeth a'i gwneud yn bosibl eu gwerthuso'n barhaus.

Dylai darparwyr fesur effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr, gan ddefnyddio data o fecanweithiau adborth dysgwyr gan gynnwys grwpiau ffocws a chwynion. Lle maent yn bodoli, mae arolygon llais y dysgwr ar brofiad dysgwyr o ymgysylltu a'u canfyddiadau am ei effeithiolrwydd hefyd yn ddefnyddiol i roi cymorth i werthuso a mesur effaith. Mae ymgysylltu â dysgwyr wrth werthuso gweithgareddau ac ymyriadau'n ei gwneud yn bosibl archwilio ymhellach beth yw'r effaith ar grwpiau targed a charfannau ehangach.

## Enghraifft/enghreifftiau o arfer:

**Enghraifft 1: Ymateb i Adroddiad Ansawdd Blynyddol Undeb y Myfyrwyr**

Daw’r enghraifft hon o addysg uwch lle mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn llunio cymorth ac arweiniad i undebau myfyrwyr i ddatblygu adroddiadau ansawdd blynyddol (neu ddogfen gyfatebol). Efallai y bydd meysydd eraill o fewn addysg drydyddol ac ymchwil yn dymuno cael mynediad at yr arweiniad hwn i gynorthwyo cynrychiolwyr dysgwyr i lunio crynodeb o brofiad dysgwyr i'w fwydo i mewn i brosesau ymgysylltu â dysgwyr a phrosesau penderfynu.

Mae'r darparwr yn ystyried Adroddiad Ansawdd Blynyddol Undeb y Myfyrwyr (gall yr enw ar hwn fod yn wahanol ym mhob Undeb Myfyrwyr yng Nghymru). Adroddiad yw hwn a ddatblygir gan Undeb y Myfyrwyr gyda thystiolaeth o adborth myfyrwyr sy'n darparu cyfrif o brofiad myfyrwyr ac yn adnabod meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad yn tynnu ar dystiolaeth o arolygon myfyrwyr, ymwneud myfyrwyr â phwyllgorau ac adborth uniongyrchol i Undeb y Myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr yn defnyddio dull tryloyw o ddatblygu'r adroddiad, gan ddefnyddio data arolygon ac adborth gan fyfyrwyr, a chan adeiladu ar drafodaethau rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r Brifysgol yn ystyried yr argymhellion yn ffurfiol yn un o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu, ac mae'r deilliannau’n cael eu goruchwylio gan bwyllgor perthnasol (e.e. y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Pwyllgor Ansawdd Academaidd). Mae deilliannau’r adroddiad yn cynnwys prosiectau neu gynlluniau gweithredu, ac mae'r cynnydd yn cael ei fonitro gan Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol trwy gydol y flwyddyn academaidd a gellir myfyrio yn ei gylch yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol nesaf.

## Cwestiynau adfyfyriol:

Sut y mae gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr yn esblygu i barhau i fod yn berthnasol, yn hygyrch ac yn ystyrlon i ddysgwyr presennol a dysgwyr yn y dyfodol? Sut yr ymgysylltir â dysgwyr wrth brofi hyn?

Sut yr eir ati i ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau ansawdd a gwella’n barhaus sy’n mynd rhagddynt? Sut y mae dysgwyr yn deall eu rolau yn hyn?

A yw’n glir i lywodraethwyr sut mae llwyddiant yn edrych ar gyfer ymgysylltu’n effeithiol â dysgwyr? Beth sy'n digwydd os oes problem yn cael ei hadnabod?

DRAFT

## Dull o Fonitro

30. Mae dull Medr o fonitro cydymffurfedd â'r Amodau Cofrestru a Chyllid cysylltiedig a'r ddyletswydd statudol ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir, wedi cael ei ddatblygu yn unol â'n Dull Rheoleiddio.

31. Ar gyfer darparwyr cofrestredig ac a gyllidir, caiff y gofynion a'r mecanweithiau cydymffurfio y bydd Medr yn eu defnyddio ar gyfer monitro eu nodi yn yr Amod Cofrestru a'r Amod Cyllid cysylltiedig. Mae'r adran hon o'r Cod wedi'i bwriadu i ddarparu eglurder pellach ynghylch y mathau o dystiolaeth a fydd yn cael eu defnyddio at ddibenion monitro.

32. Bydd monitro'n canolbwyntio'n bennaf ar effaith ac effeithiolrwydd ymgysylltu â dysgwyr gan nad yw'r Cod yn rhagnodol ynglŷn â'r mecanweithiau a ddefnyddir; bydd monitro'n ceisio enghreifftiau o arfer effeithiol o ran ymgysylltu â dysgwyr ac effaith ymgysylltu â dysgwyr a chyfleoedd ar gyfer gwella.

33. Bydd Medr yn bwrw golwg gyfannol ar draws gofynion y Cod ac felly nid yw'n disgwyl i bob darparwr gyflwyno tystiolaeth unigol ar gyfer pob egwyddor.

34. Mae Medr yn cydnabod cymhlethdodau mesur a dangos effaith ymgysylltu â dysgwyr ac yn ceisio tystiolaeth wrthrychol gryno ar <u>newidiadau a wnaed o ganlyniad i ymgysylltu â dysgwyr</u> a <u>phrofiad dysgwyr o ymgysylltu a'u canfyddiad amdano.</u>

## Gofynion Tystiolaeth

35. **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** Bydd pob darparwr yn cyflwyno ffurflen sicrwydd flynyddol sy'n darparu sicrwydd eu corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) bod y darparwr yn cydymffurfio â gofynion y Cod.

36. Bydd y ffurflen yn gadarnhad lefel-uchel o gydymffurfio ynghyd â thystiolaeth.

37. Disgwylir i'r dystiolaeth y gofynnir amdani fod ar gael yn rhwydd i'r darparwr. Dylai ddarparu trosolwg gyfannol ar sut y mae ymgysylltiad dysgwyr y darparwr â phrosesau penderfynu'n cyd-fynd ag egwyddorion y Cod, a chynnwys tystiolaeth gryno o <u>newidiadau a wnaed o ganlyniad i ymgysylltu â dysgwyr</u> a <u>thystiolaeth o brofiad dysgwyr o ymgysylltu a'u canfyddiad amdano.</u> Dylai gynnwys:
    - dadansoddiad o adborth gan ddysgwyr ar eu profiad o ymgysylltu a'u canfyddiadau am ei effeithiolrwydd
    - tystiolaeth a rannwyd gyda'r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) sy'n dangos effaith ymgysylltu â dysgwyr yn unol ag egwyddorion y Cod

38. Bydd fformat y dystiolaeth a'r mathau o dystiolaeth yn unigol i bob darparwr. Gallai enghreifftiau gynnwys:
    - dadansoddiad o ddata o arolygon dysgwyr y darparwr ar brofiad dysgwyr o ymgysylltu a'u canfyddiadau am ei effeithiolrwydd
    - copi o strategaeth/is-strategaeth ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr neu lle mae ymgysylltu â dysgwyr wedi'i ymgorffori mewn polisïau neu strategaethau sefydliadol eraill
    - enghreifftiau o gynlluniau gweithredu a ddatblygwyd gyda dysgwyr neu ganddynt
    - enghreifftiau o benderfyniadau a wnaed o ganlyniad i adborth dysgwr, neu y dylanwadwyd arnynt gan adborth dysgwr

DRAFT

- camau gweithredu sy'n deillio o Adroddiad Ansawdd Blynyddol Undeb y Myfyrwyr neu ddogfen gyfwerth
- deunyddiau neu bolisïau diwygiedig sy'n dangos newidiadau dan arweiniad dysgwyr
- astudiaethau achos o effaith prosiectau sydd wedi cynnwys dysgwyr

39. Mae'r enghreifftiau hyn yn enghreifftiol, yn hytrach na’u bod wedi'u bwriadu i fod yn rhestr gynhwysfawr neu ragnodol.

40. Pan ddangoswyd trosolwg gyfannol o gyd-fynd â'r egwyddorion trwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol a'r dystiolaeth sydd ar gael i Medr, ni fyddai ar swyddogion Medr angen rhagor o wybodaeth nac ymgysylltu â darparwyr a'u dysgwyr fel arfer, ac eithrio lle mae cyfleoedd yn codi i rannu enghreifftiau o arfer effeithiol.

41. Os bydd pryderon yn codi trwy dystiolaeth a ddarperir i Medr neu sydd ar gael iddo, neu os nad oes trosolwg gyfannol o gyd-fynd â'r egwyddorion yn amlwg, bydd swyddogion Medr yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol ac efallai y bydd yn ofynnol ymgysylltu â'r darparwr a'i ddysgwyr. Lle na ellir dangos bod y darparwr yn cyd-fynd â’r egwyddorion, efallai y bydd angen i Medr gymryd camau rheoleiddiol a chynorthwyo darparwyr i gyd-fynd â'r Cod.

**Casglu tystiolaeth yn barhaus:**

42. Ar draws Fframweithiau Rheoleiddio ac Ansawdd Medr, byddwn yn defnyddio data a thystiolaeth fel rhan o'n gweithgareddau Asesu Risg a Monitro Darparwyr. Er efallai na fydd y setiau data a thystiolaeth hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, gallant oleuo ein gwaith i fonitro cydymffurfedd â'r Cod a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr. Er enghraifft, lle mae amodau’n ei gwneud yn ofynnol cynllunio camau gweithredu sy'n effeithio ar brofiad dysgwyr, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth o ymgysylltu â dysgwyr.

43. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn ystyried tystiolaeth sydd ar gael yn rhwydd i Medr trwy'r mecanweithiau canlynol:
    - deilliannau arolygon llais y dysgwr cenedlaethol, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, mewn achosion lle mae'r deilliannau’n gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith ymgysylltu â dysgwyr
    - ymgysylltu â dysgwyr a darparwyr ar lefel sector a darparwr wrth adolygu effeithiolrwydd ac effaith ymgysylltu â dysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys adborth gan undebau myfyrwyr a grwpiau cynrychioli eraill, lle y bo'n berthnasol
    - deilliannau sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd neu effaith ymgysylltu â dysgwyr o waith arolygu ac adolygu a wnaed gan Estyn neu QAA
    - monitro data cwynion a dadansoddi cynnwys cwynion a gohebiaeth a gafwyd gan Medr
    - gwybodaeth sy'n deillio o ddigwyddiadau adroddadwy mewn achosion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd neu effaith ymgysylltu â dysgwyr

44. Dim ond pan gyfyd pryderon ynglŷn â chydymffurfio â'r Cod neu pan nad yw trosolwg gyfannol o gyd-fynd â'r egwyddorion yn amlwg, gan gynnwys trwy unrhyw adborth uniongyrchol i Medr gan gynrychiolwyr dysgwyr neu undebau myfyrwyr, y byddwn yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol.

45. Bydd swyddogion Medr yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu i ddarparwyr a'u dysgwyr na fu'n ofynnol iddynt gwrdd â ni fel rhan o'n gweithgareddau monitro. Bydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal ar y cyd â swyddogion ar draws Medr i liniaru'r baich posibl i ddarparwyr a dysgwyr. Bydd gweithgarwch ymgysylltu hefyd yn cael ei gynnal mewn lleoliadau grŵp, trwy rwydweithiau sector presennol, fel rhan o brosiectau a gyllidir gan Medr a thrwy weithgareddau llais y dysgwr Medr. Bydd ymgysylltu â darparwyr a dysgwyr yn cynorthwyo Medr i werthuso effaith ac effeithiolrwydd ymgysylltu â dysgwyr a'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arfer ac adnabod themâu sy'n codi i roi arweiniad ac er mwyn gweithio ar y cyd.

### Ymyrraeth Reoleiddiol

46. Bydd ymyrraeth reoleiddiol os ceir diffyg cydymffurfio gwirioneddol neu debygol â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn cael ei chyflawni yn unol â Dull Rheoleiddio Medr [dolen]. Gan bod ymgysylltu â dysgwyr yn un o gonglfeini'r Fframwaith Ansawdd [dolen], bydd diffyg cydymffurfio â'r Cod hefyd yn cael ei ystyried o ran cydymffurfedd â'r Fframwaith a phrosesau Asesu Risg Darparwyr ehangach Medr.

47. Bydd Medr yn dathlu effaith gadarnhaol ymgysylltu effeithiol â dysgwyr trwy hwyluso proses i rannu arfer effeithiol a gweithio ar y cyd.

48. Lle adnabyddir achosion o ddiffyg cydymffurfio, bydd hyn yn cael ei drin yn gymesur trwy ymgysylltu â dysgwyr a darparwyr ac archwilio tystiolaeth ymhellach. Efallai y bydd Medr yn gofyn am greu cynlluniau gweithredu, i'w datblygu gyda dysgwyr, a fyddai'n cael eu monitro trwy weithgareddau ymgysylltu.

49. Hefyd, gall diffyg cydymffurfio parhaus a difrifol â'r Cod arwain at ymyriadau fel a nodir yn y Dull Rheoleiddio a thrwy ystyried y Fframwaith Ansawdd.

50. Bwriad Medr yw bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn ategu gwelliant parhaus mewn gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr a'i nod yw datrys yr holl faterion diffyg cydymffurfio trwy ddull partneriaeth, ynghyd â chymorth ac arweiniad sydd ar gael trwy Medr a'r prosiectau a gyllidir ganddo.

DRAFT

## Atodiad A    Cod Ymgysylltu â Dysgwyr: arweiniad a gwybodaeth.

### Cyflwyniad

Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn seiliedig ar egwyddorion ac nid yn rhagnodol ynghylch y mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, gan gydnabod amrywiaeth y sector addysg drydyddol a'i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'r Cod yn cydnabod bod arfer sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac adnoddau, yn bodoli ym mhob rhan o'r sector ac yn ceisio adeiladu ar y rhain, yn hytrach na'u disodli.

Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion am ddeddfwriaeth, arweiniad, adnoddau a chymorth ychwanegol sy'n berthnasol i rannau penodol o'r sector trydyddol. Wrth i ragor o adnoddau ddod ar gael, byddant yn cael eu hychwanegu at y deunyddiau ategol ar gyfer y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Pan fo adnoddau a chanllawiau wedi cael eu llunio ar gyfer rhannau penodol o'r sector, efallai y byddant yn berthnasol drwy'r sector addysg drydyddol ac ymchwil, ac rydym yn rhoi anogaeth i gydweithio a rhannu ledled Cymru.

**Darpariaeth chweched dosbarth**

Canllawiau statudol:

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), 2011
Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru), 2005

Canllawiau arfer da a gwybodaeth:

Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru 2022
Gyda'n Gilydd: Creu cyngor ysgol cryf sy'n cynrychioli pawb, 2021

**Prentisiaethau**

Canllawiau cytundebol:

Fframwaith Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru (Rhifyn 12), 2024

**Dysgu Oedolion yn y Gymuned**

O fis Ebrill 2025 ymlaen, mae Medr yn cyllido gweithgareddau gwella'n barhaus a arweinir gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith i gefnogi ymgysylltiad darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned â dysgwyr. Bydd diweddariadau, adnoddau ac allbynnau o'r prosiect yn cael eu rhannu gyda'r sector unwaith y byddant ar gael. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ymgysylltudysgwr@medr.cymru.

**Addysg Bellach**

Mae Medr yn parhau i gyllido gweithgareddau a arweinir gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru i gefnogi ymgysylltiad dysgwyr AB yng Nghymru. Gan weithio gyda dysgwyr, cynrychiolwyr dysgwyr a darparwyr, mae UCM yn llunio adnoddau ac arweiniad

DRAFT

ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio i'r sector. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ymgysylltudysgwr@medr.cymru

Canllawiau statudol:

Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru), 2014

Canllawiau arfer da a gwybodaeth:

Ymchwil ar Bartneriaeth gyda Myfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach Cymru, 2020

Cefnogi Llywodraethwyr Myfyrwyr Coleg, 2025

Systemau Cynrychiolwyr Dysgwyr mewn Colegau: yr Hanfodion, 2025

**Addysg Uwch**

Mae Medr yn parhau i gyllido gweithgareddau a arweinir gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru i gefnogi ymgysylltiad myfyrwyr AU yng Nghymru. Gan weithio gyda myfyrwyr, undebau myfyrwyr, a darparwyr, mae UCM yn llunio adnoddau ac arweiniad ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio i'r sector. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â learnerengagement@medr.cymru

Canllawiau statudol:

Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru), 2014

Rhan II y Ddeddf Addysg (1994)

Canllawiau Medr:

Canllawiau Diwygiedig ar Siarteri Myfyrwyr, 2022

Canllawiau diwygiedig ar arfer da wrth gyllido undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth myfyrwyr, 2014

Canllawiau arfer da a gwybodaeth:

Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, 2024

Cod Ansawdd – Cyngor ac Arweiniad. Egwyddor 2 – Ymgysylltu â myfyrwyr fel partneriaid, 2025

Canllaw i fyfyrwyr-lywodraethwyr yng Nghymru, 2022

Ymchwil ar Bartneriaeth gyda Myfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach Cymru, 2020

Bod yn Gynrychiolydd Cwrs, 2023

Cynrychiolwyr Cwrs – disgrifiadau rôl a hyfforddiant, 2023

Gwybodaeth Allweddol ar gyfer Adroddiad Ansawdd Blynyddol, 2023

Canllawiau a thempledi ar gyfer Adroddiad Ansawdd Blynyddol, 2023

DRAFT

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**